RPW
Ar-Lein
Online

Taliadau Gwledig Cymru
Rural Payments Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Newidiadau i Borth y Llywodraeth

## Gyrchu eich cyfrif RPW Ar-lein

**O 11 Rhagfyr 2018**



1. **Beth sy’n newid?**
   Mae Porth y Llywodraeth yn cael ei wella er mwyn sicrhau ei fod yn gryfach ac yn fwy cadarn. Mae’r Llywodraeth yn cynnig mwy a mwy o wasanaethau ac mae angen i’r Porth fedru ymdopi â hynny ac â’r cynnydd yn y traffig ar y rhyngrwyd sy'n ganlyniad i hynny.

2. **Beth os ydw I wedi mynd drwy'r broses hon yn barod?**
   Dim ond os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny gyda gwasanaethau eraill y Llywodraeth (e.e. WEFO ar-lein) drwy Borth y Llywodraeth y bydd angen i chi wirio eich cyfeiriad e-bost a chreu gair adfer.

3. **Beth yw cadarnhau cyfeiriad e-bost?**
   Proses yw hon sy’n cael ei defnyddio i weld a yw'r cyfeiriad e-bost yn weithredol neu beidio. Mae Porth y Llywodraeth yn gofyn ichi gadarnhau eich cyfeiriad e-bost am ddau reswm. Y rheswm cyntaf yw ei fod yn gwneud y system yn fwy diogel, a’r ail reswm yw y bydd y cyfeiriad yn cael ei ddefnyddio i adfer eich manylion mewngofnodi os byddwch yn eu hanghofio.

4. **Pryd bydd hyn yn digwydd?**
   Bydd y newidiadau i Borth y Llywodraeth yn cael eu gwneud ar 11 Rhagfyr 2018, ac er mwyn hwyluso'r newid hwnnw, ni fydd RPW Ar-lein ar gael rhwng 11 Rhagfyr 2018 a 14 Rhagfyr 2018.

5. **Beth mae hyn yn ei olygu imi?**
   Bydd un neu ddau o fân newidiadau. Bydd eich manylion mewngofnodi presennol yn dal i weithio, fodd bynnag, y tro cyntaf ichi fewngofnodi ar ôl 11 Rhagfyr 2018:
   a) Fe welwch bod y sgriniau yn wahanol (manylion llawn yn Atodiad A).
   b) Bydd angen ichi wirio eich cyfeiriad ebost.
   c) Bydd angen ichi greu ‘gair adfer’.

6. **Beth os nad oes gen i fy nghyfeiriad e-bost fy hun?**
   Mae'n bwysig eich bod yn defnyddio cyfeiriad e-bost dilys y mae gennych chi, neu rywun sy'n gweithredu ar ran eich busnes, fynediad iddo a'i fod yn gallu adfer unrhyw gyfathrebu o borth y Llywodraeth.

7. **Sut y gallaf gael cyfeiriad e-bost?**
   Mae nifer o wahanol wasanaethau e-bost am ddim ar gael gan gynnwys Gmail.com gan Google ac Outlook.com gan Microsoft. Gallech, fodd bynnag, ofyn am awgrymiadau gan eich ffrindiau ac aelodau o’ch teulu ynghylch y darparwr gorau a all fodloni eich anghenion.

8. **Beth yw gair adennill?**
   Os ydych wedi rhoi nod tudalen ar Borth y Llywodraeth neu ar RPW Ar-Lein, dylech chi edrych i weld a yw'r dolenni'n dal i weithio ac yna eu diweddaru os bydd angen. Os bydd defnyddwyr yn ceisio mewngofnodi drwy dudalen mewngofnodi hen Borth y Llywodraeth, byddan nhw'n cael eu hailgyfeirio'n awtomatig i'r dudalen mewngfnodi ar Borth newydd y Llywodraeth.

   Bydd Porth y Llywodraeth ond yn gofyn ichi am lythrennau o'ch gair adfer os byddwch yn anghofio eich cyfrinair.

   Bydd Porth y Llywodraeth ond yn gofyn ichi am gyfres ar hap o lythrennau o'ch gair adfer (e.e. llythyren 1, 4 a 6) os byddwch wedi anghofio eich cyfrinair.

9. **Mae RPW Ar-lein yn un o fy ffefrynnau. A fydd yn dal i weithio?**
   Bydd, caiff defnyddwyr sy'n ceisio mewngofnodi drwy'r hen dudalen Porth y Llywodraeth yn cael eu hail-gyfeirio yn awtomatig i dudalen mewngofnodi newydd Porth y Llywodraeth.

10. **Rydwi wedi anghofio fy manylion mewngofnodi. Beth ddylwn i ei wneud?**
   Os ydych chi wedi anghofi'ch manylion mewngofnodi ar gyfer RPW Ar-lein, ffoniwch y **Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid** ar **03000 062 5004**


11. **Beth os wyf wedi anghofio fy Rhif Defnyddiwr neu fy nghyfrinair ar gyfer Porth y Llywodraeth?**
   Edrychwch ar y sgrin lun yn Atodiad A. Os oes gennych unrhyw broblemau, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid 0300 062 5004.

12. **Sut mae cael cymorth?**
   Os oes angen rhagor o gymorth arnoch, dylech droi at yr adran gymorth ar Borth y Llywodraeth.


13. **Sut mae ychwanegu aelodau newydd i'r tîm?**
   Os ydych chi'n weinyddwr, gallwch ychwanegu aelodau newydd i'r tîm trwy Reoli'r Grŵp - (gweler y manylion yn Atodiad B). Bydd aelodau newydd y tîm yn cael gweld y cyfrif RPW Ar-lein gan ddefnyddio eu ID Defnyddiwr a'u Cyfrinair eu hunain a fydd yn cael eu creu pan fyddwch yn eu hychwanegu. Chi fydd yn penderfynu beth fydd eu statws – Safonol neu Weinyddol. Ni fydd aelod safonol yn cael ychwanegu aelodau newydd.

# Atodiad A: Sgriniau Porth y Llywodraeth newydd


1. **Mewngofnodi gan ddefnyddio'ch Rhif Defnyddiwr a'ch cyfrinair ar gyfer Porth y Llywodraeth. Os ydych wedi anghofio eich Rhif Defnyddiwr neu eich cyfrinair – ewch i sgrîn 2. Fel arall ewch i sgrîn 3.**





2. **Os ydych chi wedi anghofio'ch Rhif Defnyddiwr neu'ch cyfrinair ar gyfer Porth y Llywodraeth, sgroliwch i lawr a chliciwch ar y dolenni perthnasol – fel y dangosir isod. Os oes gennych unrhyw broblemau, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt Cwsmeriaid 0300 062 5004.**




3. **Bydd y sgrin nesaf yn gofyn ichi gadarnhau'ch enw a'ch cyfeiriad e-bost.**





4. **Os ydy'r cyfeiriad e-bost yn anghywir, bydd angen ichi yn gyntaf gadarnhau'ch enw.**




5. **Ac yna newid a chadarnhau'ch cyfeiriad e-bost.**





6. **Ar ôl ichi gadarnhau'ch cyfeiriad e-bost , byddwn yn e-bostio cod 8 digid Porth y Llywodraeth atoch chi. Nodwch hwnnw ar y sgrin ganlynol.**




7. **Yna, byddwn yn gofyn ichi greu ‘gair adfer’ all fod yn unrhyw beth yr hoffech chi. Rhaid iddo fod rhwng 6 a 12 llythyren o hyd, ond heb fylchau, nodau arbennig na rhifau.**




8. **Cofiwch wneud cofnod o’ch gair adfer a’i gadw mewn lle sâff ichi allu troi ato yn y dyfodol.**




9. **Yna cewch fewngofnodi i RPW Ar-lein.**





# Atodiad B - Sut mae ychwanegu aelodau newydd i'r tîm?


1. **Cliciwch ar Rheoli Grŵp.**





2. **yna, gallwch ychwanegu aelodau'r tîm at grŵp.**




Rural Payments Wales Online
Ychwanegwch aelod o'r tîm - GO
Apps
RPW Web Test Harne
Ychwanegwch aelod o'r tîm
Enw llawn
Cyfeiriad e-bost
Mae'r cyfeiriad e-bost hwn yn gywir
Beth yw ei swydd?
Gweinyddwr
Gallu cyrchu trethi a chynlluniau ar gyfer sefydliad a rheoli aelodau o'i dîm.
Defnyddiwr safonol
Gallu cyrchu trethi a chynlluniau ar gyfer sefydliad.


Rural Payments Wales Online
Grŵp - GOV.UK
Apps
RPW Web Test Harne
GOV.UK
Allgofnodi
BETA Gwasanaeth newydd yw hwn – bydd eich adborth yn ein helpu i'w wella.
English | Cymraeg
Yn ôl
Cadarnhewch eich bod am ychwanegu'r aelodau newydd hyn o'r tîm
David Jones
David@123.com
Gweinyddwr
Dilëwch
Newid
Ychwanegwch aelod newydd arall o'r tîm
Cadarnhau



Rural Payments Wales Online
Grŵp - GOV.UK
Apps
BETA
Gwasanaeth newydd yw hwn – bydd eich adborth yn ein helpu i'w wella.
English | Cymraeg
1 aelod o'r tîm wedi'i ychwanegu
Pwy rydych wedi'i ychwanegu
Yr hyn sy'n digwydd nesaf
Byddwn yn anfon e-bost atoch gyda chyfrinair dros dro ar gyfer yr aelod newydd o'r tîm.
Rhowch eu cyfrinair dros dro iddynt er mwyn iddynt ei ddefnyddio gyda'u Dynodydd Defnyddiwr (ID) i fewngofnodi. Byddant yn cael eu Dynodydd Defnyddiwr (ID) drwy e-bost.
Am resymau diogelwch, peidiwch ag anfon y cyfrinair drwy e-bost.